# Dangosyddion Perfformiad Allweddol Trafnidiaeth Cymru

*Chwarter 01 2025/26*

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cyflwyniad

Yn Trafnidiaeth Cymru, rydym am fod yn hoff ffordd Cymru o deithio. Rhaid inni adeiladu rhwydwaith teithio cynaliadwy ar ran y cymunedau yr ydym yn gwasanaethu. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni fod yn agored ac yn dryloyw yn ein hymagwedd. Mae cyhoeddi'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn gam pwysig tuag at hyn. Bydd yn helpu cwsmeriaid, cymunedau a rhanddeiliaid i ymddiried ynddi ni.

Mae ein dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u rhannu'n bum maes allweddol, (diogelwch, cwsmeriaid, pobl, cyllid a chynaliadwyedd) sy'n adlewyrchu cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru.

Mae dangos cynnydd yn yr holl feysydd hyn yn flaenoriaeth i ni. Mae pob un yn mesur pa mor agos ydym at gyflawni'r cylch gwaith a osodwyd i nigan Lywodraeth Cymru. Gallwch ddarllen y blaenoriaethau hyn yn ein cynllun busnes a'n strategaeth gorfforaethol.

Bydd ein dangosyddion perfformiad allweddol yn datblygu wrth i ni gyflawni ein cylch gwaith.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Fel corff a enwir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi cysoni ein dangosyddion perfformiad allweddol â'r saith nod llesiant.

Mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol o leiaf yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn:

- ystyried y tymor hir
- helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
- ymryd agwedd integredig
- cymryd agwedd gydweithredol ac ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth

1 **Cymru lewyrchus**

2 **Cymru gydnerth**

3 **Cymru iachach**

4 **Cymru sy'n fwy cyfartal**

5 **Cymru o gymunedau cydlynus**

6 **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

7 **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**



**Well-being Goals**

| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diogelwch** | Diogelwch Cydweithwyr | | ● | ● | | | | |
| | Digwyddiadau Diogelwch fesul 100k o Deithiau Teithwyr | | ● | ● | | | | |
| **Cwsmer** | Boddhad Cwsmer | ● | | | | ● | | |
| | Cwynion fesul 100k o Deithiau Rheilffordd | ● | | | | ● | | |
| | Teithiau Teithwyr Rheilffyrdd | ● | ● | | | ● | | |
| | Llinellau Craidd y Cymoedd (hyd at 3 munud) | ● | | | | ● | | |
| | Cymru a'r Gororau Ar Amser (hyd at 3 munud) | ● | | | | ● | | |
| | Canslo ar y diwrnod | ● | | | | ● | | |
| | Cansladau- Cyn | ● | | | | ● | | |
| | Cwynion TrawsCymru fesul 100k o Deithiau | ● | | | | ● | | |
| | Teithiau Teithwyr TrawsCymru | ● | ● | | | ● | | |
| | Cansladau TrawsCymru | ● | | | | ● | | |
| | Cwynion i Gomisiynydd y Gymraeg fesul 100k o Deithiau | | | | | | ● | |
| **Pobl** | Ymgeiswyr sy'n Ferched Sy'n Ennill Rolau Gyda TrC | | | | ● | ● | | |
| | Cadw Cydweithwyr | ● | | | ● | | | |
| **Cyllid** | Gwariant Gweithredu | ● | | | | | | |
| | Gwariant Cyfalaf | ● | | | | | | |
| | Refeniw o Werthu Tocynnau | ● | | | | | | |
| **Cynaladwyedd** | Allyriadau Carbon Deuocsid fesul Cilomedr Teithiwr | | ● | ● | ● | | | ● |

# Diogelwch

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Diogelwch Cydweithwyr

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 98.3% | 98.6% |

### Disgrifiad DPA

Canran gyffredinol staff Rheilffyrdd TrC a oedd yn gweithio'n ddiogel a ddim yn agored i weithredoedd neu amodau anniogel, megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, galwadau agos neu ddamweiniau.

### Trosolwg

Roedd cydweithwyr heb Ddigwyddiad Diogelwch yn Ch1 2025/26 wedi gwella ychydig o'i gymharu â Ch1 2024/25. Er mwyn cynnal y safon hon, fe wnaethom barhau i adolygu digwyddiadau i ganfod tueddiadau a'u lliniaru yn unol â hynny.

### Edrych Ymlaen

Mae diogelwch ein cydweithwyr yn eithriadol o bwysig i ni a chynllunnir ar ei gyfer ym mhob agwedd ar ein gwaith. Yn 2025/26, er mwyn atgyfnerthu ein perfformiad diogelwch cryf, rydym yn datblygu ein dull gweithredu ar gyfer risg diogelwch drwy nodi materion cyffredin sy'n ymwneud â digwyddiadau a'r prif bethau sy'n eu hachosi.

## Digwyddiadau Diogelwch fesul 100k o Deithiau Teithwyr

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 1.3 | 2.0 |

### Disgrifiad DPA

Nifer y digwyddiadau diogelwch yn ymwneud ag unrhyw gwsmer, teithiwr, neu aelod o'r cyhoedd fesul 100,000 o deithiau teithwy.

### Trosolwg

Yn Ch1 2025/26 roedd Digwyddiadau Diogelwch fesul 100,000 o Deithiau Teithwyr yn uwch na'r disgwyl o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25, a gellir eu priodoli'n bennaf i un digwyddiad ar Linell y Gororau ym mis Mai. Mae'r RAIB yn parhau i ymchwilio i'r digwyddiad. Wrth beidio â chynnwys y digwyddiad hwn yn yr ystadegau, mae nifer y digwyddiadau yn dal yn unol â chwarteri blaenorol gyda'r rhain yn digwydd yn bennaf mewn gorsafoedd neu wrth fynd ar drenau neu ddod oddi arnynt.

### Edrych Ymlaen

Mae diogelwch a llesiant ein cwsmeriaid yn hollbwysig. Bydd ein Grŵp Llywio Lliniaru Damweiniau Cwsmeriaid yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol wrth reoli risgiau diogelwch.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cwsmer

## Boddhad Cwsmer

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 82.9% | 87.1% |

**Disgrifiad DPA**

Rydym yn mesur boddhad cwsmeriaid trwy Wavelength, sef offeryn monitro a mesur gwasanaeth cwsmeriaid y diwydiant rheilffyrdd. Mae'n mesur pa mor fodlon yw ein cwsmeriaid â'u taith gyffredinol.

### Trosolwg

Roedd bodlonrwydd cwsmeriaid trenau wedi gwella 4 pwynt canran i 87% ers Ch1 2024/25. Rydym yn dadansoddi adborth gan gwsmeriaid o arolygon yn ofalus er mwyn gwella ein gwasanaethau a'n seilwaith.

### Edrych Ymlaen

Yn 2025/26 byddwn yn defnyddio arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid i ddeall anghenion ein cwsmeriaid yn well er mwyn i ni allu rhoi gwelliannau wedi'u targedu ar waith ar draws ein rhwydwaith.

## Cwynion fesul 100k o Deithiau Rheilffordd

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 95 | 113 |

**Disgrifiad DPA**

Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd gan gwsmer neu gwsmer posibl ynghylch Rheilffyrdd TrC fel cyfran o 100,000 o siwrneiau teithwyr rheilffordd.

### Trosolwg

Yn Ch1 2025/25, mae cwynion fesul 100k o Deithiau Rheilffordd wedi cynyddu o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Gellir priodoli hyn yn bennaf i un digwyddiad ar Linell y Gororau ym mis Mai a achosodd aflonyddwch sylweddol i'n cwsmeriaid.

### Edrych Ymlaen

Rydym yn ei gwneud hi'n haws i'n cwsmeriaid rannu adborth neu wneud cwyn drwy wella ein ffurflen ar-lein. Mae'n cael ei llunio i roi'r holl fanylion sydd eu hangen arnom i ymateb yn gyflym ac yn gymwynasgar. Rydym hefyd wedi lansio ein harolwg profiad cwsmeriaid ein hunain yn ddiweddar, a chyn bo hir byddwn yn gwahodd ein cwsmeriaid i adael adolygiad ar Trustpilot i ddarparu mwy o ffyrdd i gwsmeriaid rannu eu profiadau a'u hadborth â ni.

# Cwsmer

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Teithiau Teithwyr Rheilffyrd

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 7.0M | 7.5M |

**Disgrifiad DPA**

Cyfanswm nifer y teithwyr trên a brynodd docynnau ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Mae hyn yn cynnwys Llinellau Craidd y Cymoedd a Chymru a'r Gororau.

### Trosolwg

Cynyddodd Teithiau Teithwyr Rheilffordd 7.4 % yn Ch1 2025/26 o'i gymharu â Ch1 2024/25. Teithiau pellter canolig (20-50 milltir) oedd yn bennaf gyfrifol am y twf hwn, yn enwedig yn Ne a Gogledd Cymru.

### Edrych Ymlaen

Yn 2025/26, ein nod yw denu cwsmeriaid newydd drwy wella'r gwasanaethau a gynigiwn. Byddwn yn cynyddu'r galw drwy symleiddio prisiau a gwella gwerth.

## Llinellau Craidd y Cymoedd (hyd at 3 munud)

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 83.6% | 88.5% |

**Disgrifiad DPA**

Canran y gwasanaethau rheilffordd sy'n cyrraedd o fewn 3 munud i'r amser cyrraedd a drefnwyd ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd. Cyfeirir at hyn yn fewnol fel Amser Teithwyr a Gollwyd. Rhoddir pwysiad ar orsafoedd rheilffordd sydd â'r nifer uchaf o gwsmeriaid felly mae oedi mewn lleoliadau mwy o ymwelwyr yn cael mwy o effaith ar y mesur. Er enghraifft, mae oedi yn Heol y Frenhines Caerdydd yn cael mwy o effaith ar y ganran o gymharu â Threherbert.

### Trosolwg

Yn Ch1 2025/26, cynyddodd prydlondeb Llinellau Craidd y Cymoedd. Hwn oedd ein cyfnod perfformiad gorau ers i ni gynyddu'r amserlen yn sylweddol ym mis Mehefin 2024. Fe wnaethom barhau i gyflwyno mwy o'n trenau tri-modd newydd sbon (gyda 14 bellach mewn gwasanaeth dyddiol) sy'n helpu i ddarparu gwasanaeth prydlon iawn.

### Edrych Ymlaen

Cyn bo hir byddwn yn cyflwyno mwy o drenau newydd i Linellau Craidd y Cymoedd ac yn gwneud rhagor o welliannau i'n seilwaith. Byddwn yn parhau i weithio gyda Network Rail i wella prydlondeb a lleihau tarfu.

# Cwsmer

## Cymru a’r Gororau Ar Amser (hyd at 3 munud)

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 74.4% | 74.3% |

**Disgrifiad DPA**

Canran y gwasanaethau rheilffordd sy’n cyrraedd o fewn 3 munud i’r amser cyrraedd a drefnwyd ar draws Cymru a’r Gororau, cyfeirir at hyn yn fewnol fel Colli Amser Teithiwr. Rhoddir pwysiad ar orsafoedd rheilffordd sydd â'r nifer uchaf o gwsmeriaid felly mae oedi mewn lleoliadau mwy o ymwelwyr yn cael mwy o effaith ar y mesur. Er enghraifft. mae oedi yng Nghaerdydd Canolog yn cael effaith uwch na'r ganran o gymharu â Phont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd.

### Trosolwg

Yn Ch1, gostyngodd prydlondeb ar lwybr Cymru a'r Gororau ychydig o'i gymharu â Ch1 2024/25 (yn bennaf o ganlyniad i gyfres o ddigwyddiadau seilwaith rheilffyrdd a gafodd effaith fawr). Rydym yn parhau i wella dibynadwyedd ac argaeledd trenau, gyda ffurfiannau cerbydau a chapasiti cwsmeriaid yn cynyddu o fis i fis. Mae trenau newydd bellach yn rhedeg ar draws bron yr holl rwydwaith.

### Edrych Ymlaen

Cyn bo hir byddwn yn cyflwyno rhagor o drenau newydd a fydd yn lleihau amseroedd teithio ymhellach ac yn gwella prydlondeb ar rwydwaith Cymru a'r Gororau. Byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwyr i wella argaeledd a dibynadwyedd trenau. Byddwn yn gweithio gyda Network Rail i wella dibynadwyedd amserlenni a lliniaru effaith tarfu arall.

## Canslo ar y diwrnod

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 5.4% | 5.6% |

**Disgrifiad DPA**

Canran y gwasanaethau rheilffordd a ganslwyd ar y diwrnod ar draws y rhwydwaith fel cyfran o gyfanswm nifer y gwasanaethau a nodir yn y cynllun trên dyddiol.

### Trosolwg

Roedd nifer yr achosion o ganslo wedi gostwng ychydig o'i gymharu â Ch1 2024/25. Hwyluswyd hyn drwy wella argaeledd trenau ac ar lwybrau a oedd yn perfformio'n wael o'r blaen. Rydym hefyd wedi gweithredu cynlluniau wrth gefn i wella'r broses o adfer gwasanaethau'n gyflym pan fydd pethau'n mynd o’i le.

### Edrych Ymlaen

Dylai achosion o Ganslo ar y Diwrnod a achosir gan brinder trenau leihau wrth i fwy o drenau newydd gael eu cyflwyno. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar strategaethau a fydd yn lleihau'r tarfu ar deithwyr os bydd tywydd eithafol, problemau cynnal a chadw trenau, a phroblemau seilwaith.

# Cwsmer

## Cansladau- Cyn

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 0.1% | 0.0% |

**Disgrifiad DPA**

Canran y gwasanaethau rheilffordd a ganslwyd cyn 10yh y diwrnod cyn gweithredu fel cyfran o gyfanswm nifer y gwasanaethau a nodir yn y cynllun trên dyddiol.

### Trosolwg

Ychydig iawn o achosion o ganslo ymlaen llaw oedd yn ystod y chwarter. Roedd hyn yn adlewyrchu ein gwaith cynllunio adnoddau gofalus, gan sicrhau bod digon o yrwyr trenau, goruchwylwyr a chydweithwyr eraill sydd â chyfrifoldebau diogelwch hollbwysig i weithredu'r amserlen. Mae dydd Sul bellach yn rhan o wythnos waith ein gyrwyr trenau, gan arwain at well gwasanaeth ar ddydd Sul.

### Edrych Ymlaen

Byddwn yn cynnal nifer y Gyrwyr, Goruchwylwyr a chydweithwyr eraill sy'n hanfodol i ddiogelwch er mwyn gallu gwella amserlenni yn y dyfodol a gallu cynnal hyfforddiant i gydweithwyr ar gyfer ein trenau newydd. Bydd y risg o brinder goruchwylwyr ar ddydd Sul yn lleihau eleni pan fydd dydd Sul yn cael ei gynnwys yn yr wythnos waith.

## Cwynion TrawsCymru fesul 100k o Deithiau

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 19 | 21 |

**Disgrifiad DPA**

Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd gan gwsmer neu ddarpar gwsmer am deithiau TrawsCymru T1, T1C, T2, T3, T6, T10 fel cyfran o 100,000 o deithiau teithwyr TrawsCymru.

### Trosolwg

Mae cwynion fesul 100 yn parhau i fod ar lefel gyson isel drwy gydol y chwarter ac mae'n dilyn y duedd tuag i fyny o gynyddu yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Rydym yn parhau i ymgysylltu a gwrando ar ein cwsmeriaid ac wedi cynnal nifer o sioeau teithiol. Rydym yn cyflwyno gwelliannau i'r gwasanaeth T1 fis Gorffennaf yn dilyn adborth gan ein cwsmeriaid. Rhoddwyd nifer o newidiadau ar waith ym mis Mehefin 2025 ar gyfer T3 yn dilyn adborth gan gwsmeriaid yn ein sioeau teithiol ym mis Tachwedd 2024, gydag amserlen a llwybr wedi'u mireinio i gynnig gwell cysylltiadau ac i wella dibynadwyedd a chadernid er mwyn darparu gwasanaeth mwy hygyrch.

### Edrych Ymlaen

Yn 2025/26, byddwn yn parhau i gynnal digwyddiadau ymgysylltu â chwsmeriaid i gasglu adborth ar ein gwasanaeth a blaenoriaethu meysydd i'w gwella. Byddwn yn treialu ail gwrs hyfforddi gyda'n gyrwyr, gan roi pwyslais ar brofiad y cwsmer. Byddwn yn sicrhau bod digon o gapasiti ar gyfer ein rhwydwaith ar adegau prysurach.

# Cwsmer

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Teithiau Teithwyr TrawsCymru

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 | Disgrifiad DPA |
|---|---|---|
| 0.3M | 0.3M | Cyfanswm nifer y teithwyr a gludwyd ar lwybrau TrawsCymru T1, T1C, T2, T3, T6, T10. |

### Trosolwg

Mae Teithiau teithwyr TrawsCymru yn parhau i gynyddu. Mae ein safonau gweithredu cyson, ein strwythurau prisiau a'r gwaith pellach o ehangu tocynnau rheilffyrdd a bysiau integredig yn parhau i ddenu cwsmeriaid newydd. Mae cynnydd sylweddol yn nifer y cwsmeriaid ar wasanaethau o'i gymharu â Ch1 2024/25. Gwelsom gynnydd o 26% ar lwybrau T10 (Bangor i Gorwen), cynnydd o 14% ar T2 (Bangor i Aberystwyth) a chynnydd o 11% ar lwybrau T6 (Aberhonddu i Abertawe). Rydym wedi cyflwyno tocyn trwodd ar T6, sy'n caniatáu i gwsmeriaid newid yn ddi-dor i ddau lwybr arall ym Mhowys heb orfod prynu tocyn arall. Mae'r integreiddio hwn wedi denu cynnydd o 72% mewn gwerthiant tocynnau digidol yn Ch1 2025/26 o'i gymharu â Ch1 2024/25.

### Edrych Ymlaen

Yn 2025/26, byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth o safon gyson ac uchel i gwsmeriaid TrawsCymru ar draws y rhwydwaith. Byddwn yn safoni ein strwythur prisiau wrth i ragor o lwybrau TrawsCymru ymuno â TrC a byddwn yn darparu gwasanaeth o safon uchel gan y bydd ein holl yrwyr yn cael hyfforddiant boddhad cwsmeriaid. Byddwn yn parhau i foderneiddio ein fflyd o fysiau.

## TrawsCymru Cancellations

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 | Disgrifiad DPA |
|---|---|---|
| 0.4% | 0.5% | Canran y siwrneiau TrawsCymru T1, T1C, T2, T3, T6, T10 a gafodd eu canslo ar y diwrnod. |

### Trosolwg

Roedd nifer yr achosion o ganslo teithiau TrawsCymru yn gyson isel yn y chwarter ac roedd safonau darparu gwasanaethau yn parhau yn uchel. Roedd unrhyw achosion o ganslo yn bennaf oherwydd tagfeydd traffig, yn enwedig yn ystod y traffig ar ŵyl y banc ym mis Ebrill, neu oherwydd bod ffyrdd ar gau ar fyr rybudd. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar brydlondeb a dibynadwyedd.

### Edrych Ymlaen

Yn 2025/26, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fonitro tueddiadau a'r prif bethau sy'n achosi i ni orfod canslo er mwyn ein helpu i darfu cyn lleied â phosibl ar gwsmeriaid. Byddwn yn buddsoddi mewn systemau gwybodaeth i gwsmeriaid a fydd yn rhoi gwybod i gwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaeth yn rheolaidd am unrhyw darfu posibl.

# Cwsmer

## Cwynion i Gomisiynydd y Gymraeg fesul 100k o Deithiau

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 0.04 | 0.03 |

### Disgrifiad DPA

Cwynion newydd fesul 100,000 o deithiau teithwyr (TrawsCymru a Rail) i Gomisiynydd y Gymraeg pan nad yw'r achwynydd wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg gan TrC neu os oedd yn anfodlon â phenderfyniad Trafnidiaeth Cymru ar fater yn ymwneud â'r Gymraeg.

### Trosolwg

Roedd Cwynion Allanol am y Gymraeg fesul 100,000 o deithiau wedi gostwng o'i gymharu â Ch1 2024/25. Mae gan y rhan fwyaf o gwynion agored gynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt, gydag adnoddau a chyllidebau wedi'u dyrannu iddynt. Mae'r rhain yn ymwneud â chyhoeddiadau mewn gorsafoedd ac ar ein fflyd o drenau hŷn, teitlau e-farchnata yn Saesneg yn gyntaf a Chymraeg yn ail, a rhoi'r gorau i ddefnyddio'r hen lwyfannau Saesneg-yn-unig i gwsmeriaid.

### Edrych Ymlaen

Yn 2025/26, byddwn yn parhau i fonitro ein darpariaeth Gymraeg i gwsmeriaid a staff. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu am welliannau i seilwaith a'n gwaith gyda phartneriaid allanol i sicrhau bod safonau'r Gymraeg yn cael eu dilyn yn drylwyr a bod cyfleoedd diwylliannol Cymreig yn cael eu rhannu. Mae Strategaeth y Gymraeg TrC ar gael ar ein gwefan ac mae'n cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

# Pobl

## Ymgeiswyr sy'n Ferched Sy'n Ennill Rolau Gyda TrC

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
| --- | --- |
| 28.0% | 42.9% |

**Disgrifiad DPA**

Canran yr ymgeiswyr benywaidd sy’n llwyddo i gael rôl TrC. Rydym yn gweithio i adeiladu tîm amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

**Trosolwg**

Bu cynnydd sylweddol yng nghanran y menywod a ymgeisiodd am swyddi ac a gafodd swyddi gyda TrC yn Ch1 2025/26 o'i gymharu â Ch1 2024/25. Fe wnaethom lansio ein Rhaglen Dychwelyd i Yrfa gyntaf y chwarter hwn sydd wedi cael effaith gadarnhaol o ran denu mwy o ymgeiswyr sy’n fenywod, a galluogi menywod i gael swyddi gyda TrC.

**Edrych Ymlaen**

Rydym yn benderfynol o fod yn un o gyflogwyr mwyaf cynhwysol Cymru drwy gynrychioli'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu yn ein gweithle. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid cymunedol i hysbysebu ar eu byrddau swyddi ac ymestyn cyrhaeddiad ein hymgyrchoedd hysbysebu. Rydym hefyd yn lansio ein cynlluniau Llwybrau at Waith a fydd yn darparu cyfleoedd lleoliad i grwpiau amrywiol a menywod.

## Cadw Cydweithwyr

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
| --- | --- |
| 98.2% | 98.2% |

**Disgrifiad DPA**

Canran y cydweithwyr TrC a arhosodd gyda TrC yn ystod y flwyddyn. Rydym yn monitro hyn ar y cyd â pham mae cydweithwyr TrC yn gadael y sefydliad fel y gallwn ddyfeisio mentrau i gynyddu cadw gweithwyr. Bydd hyn yn ysgogi perfformiad gwell, yn gwella ein canlyniadau busnes ac yn lleihau'r risg o berfformiad busnes negyddol.

**Trosolwg**

Mae Lefelau Cadw Cydweithwyr wedi aros yn sefydlog yn Ch1 2025/26. Fel y llynedd, roedd cydweithwyr wedi elwa o raglenni arweinyddiaeth mewnol a chyfleoedd secondiad gyda Llywodraeth Cymru a Network Rail. Ymddiswyddo ac ymddeol oedd y prif resymau dros gydweithwyr yn gadael TrC.

**Edrych Ymlaen**

Yn 2025/26, bydd cyfleoedd datblygu gyrfa i'n cydweithwyr yn parhau i ddigwydd drwy hyfforddiant mewnol ac allanol, a thrwy bartneriaethau ag achrediadau sy'n cael eu cydnabod yn broffesiynol.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cyllid

## Gwariant Gweithredu

| Gwariant BA 2024/25 | Rhagolwg y BA 2025/26 | Cyllideb 2025/26 |
|---|---|---|
| £376.6M | £431.6M | £431.6M |

### Disgrifiad DPA

Y rhagolwg blwyddyn lawn diweddaraf ar gyfer gwariant gweithredol yn erbyn gwariant gweithredol blwyddyn gyfan a gyllidebwyd.

### Trosolwg

Mae alldro'r flwyddyn lawn yn cyd-fynd â Chyllideb TrC yn y Cynllun Busnes a'r llythyr cyllido diwygiedig a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

### Edrych Ymlaen

Rydym yn parhau i adolygu gwariant ar draws TrC i nodi risgiau a chyfleoedd. Rydym yn cynnwys her rheoli ac arbedion effeithlonrwydd yn y broses o bennu cyllideb.

## Gwariant Cyfalaf

| Gwariant BA 2024/25 | Rhagolwg y BA 2025/26 | Cyllideb 2025/26 |
|---|---|---|
| £358.0M | £299.9M | £299.9M |

### Disgrifiad DPA

Y rhagolwg blwyddyn lawn diweddaraf ar gyfer gwariant cyfalaf yn erbyn gwariant cyfalaf blwyddyn gyfan a gyllidebwyd.

### Trosolwg

Mae alldro'r flwyddyn lawn yn cyd-fynd â Chyllideb TrC yn y Cynllun Busnes ynghyd ag addasiadau cyllido dilynol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru, ac mae pob un wedi'i adlewyrchu yn y llythyr cyllido terfynol. Bydd y rhan fwyaf o wariant 2025/26 ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd a threnau newydd ar gyfer trawsnewid gwasanaethau.

### Edrych Ymlaen

Rydym yn parhau i adolygu gwariant ar draws TrC i nodi risgiau a chyfleoedd. Rydym yn cynnwys her rheoli ac arbedion effeithlonrwydd yn y broses o bennu cyllideb.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cyllid

## Refeniw o Werthu Tocynnau

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
| --- | --- |
| £39.1M | £41.9M |

### Disgrifiad DPA

Y refeniw a enillir o werthu tocynnau trên; cyfeirir at hyn yn gyffredin fel Refeniw Teithwyr (er bod Incwm Farebox yn cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol ar draws y diwydiant).

### Trosolwg

Cynyddodd y refeniw o werthiant tocynnau 7.2% yn Ch1 2025/26 o'i gymharu â Ch1 2024/25. Roedd hyn yn bennaf oherwydd twf yn nifer y teithiau a wnaed ar rwydwaith TrC, gyda thwf yn y Gogledd yn arbennig o gryf.

### Edrych Ymlaen

Yn 2025/26, bydd ehangu prisiau sy'n seiliedig ar alw a thocynnau talu wrth fynd digyswllt ar draws y rhwydwaith yn allweddol i gynyddu refeniw. Bydd cwsmeriaid hefyd yn elwa o drawsnewid y rhwydwaith yn barhaus ac yn ein galluogi i gynyddu refeniw ymhellach. Bydd hyn yn galluogi ail-fuddsoddi er mwyn gwella'r gwasanaethau a gynigiwn.

# Cynaladwyedd

## Allyriadau Carbon Deuocsid fesul Cilomedr Teithiwr

| CH 1 2024/25 | CH 1 2025/26 |
|---|---|
| 83.0 | 71.9 |

### Disgrifiad DPA

Swm yr allyriadau Carbon Deuocsid Cwmpas 1 mewn gramau a gynhyrchir gan ein gwasanaethau rheilffordd fesul km teithiwr a deithiwyd. Allyriadau Cwmpas 1 yw'r rhai sy'n deillio o'r defnydd o danwydd gan ein trenau. Mae'r fethodoleg hon yn unol â meini prawf adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfer allyriadau carbon.

### Trosolwg

Yn Ch1 2025/26, gostyngodd Allyriadau Carbon Deuocsid fesul Cilomedr Teithiwr o'i gymharu â Ch1 2024/25. Bydd y rhan fwyaf o wariant 2025/26 ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd a threnau newydd ar gyfer trawsnewid gwasanaethau.

### Edrych Ymlaen

Ein nod yw cyhoeddi Cynllun Rheoli Carbon a Strategaeth Ynni y byddwn yn eu defnyddio i reoli ein gweithgareddau allyrru carbon a chynyddu effeithlonrwydd ynni. Yn 2026, rydym yn disgwyl gweld ein hallyriadau carbon o ddisel yn gostwng wrth i'n trenau hybrid a'n trenau-tram trydan cyntaf gael eu cyflwyno ar Linellau Craidd y Cymoedd. Mae'r trenau newydd hyn yn gam sylweddol tuag at ddatgarboneiddio ein fflyd a chefnogi targedau sero net 2050 Llywodraeth Cymru.